



CYMORTH  
GWIRFODDOLI  
GORLLEWIN  
MORGANNWG



WEST  
GLAMORGAN  
VOLUNTEERING  
SUPPORT

# Pecyn Cymorth Cyfeillion Parciau/Lleoedd Gwyrdd

Pecyn cymorth i wirfoddolwyr



Adnodd a rennir ar gyfer  
datblygu gwybodaeth





# Cynnwys

Adran 1: Cyflwyniad.....	<b>3</b>
Adran 2: Cefndir.....	<b>4</b>
Adran 3: A ydych yn ystyried sefydlu grŵp newydd?.....	<b>7</b>
Adran 4: Sefydlu grŵp cymunedol newydd.....	<b>10</b>
Adran 5: Pethau eraill i'w hystyried.....	<b>14</b>



# Adran 1: Cyflwyniad

## 1.1 Diben y pecyn cymorth hwn

Yn aml, parciau a mannau gwyrdd lleol yw rhai o'r asedau mwyaf gwerthfawr yn ein cymunedau. Yn ogystal â rhoi profiad i ni o'r byd naturiol, mae'r mannau hyn yn ein helpu i gadw'n actif, hapus ac iach wrth gyfrannu at yr economi leol. Gyda phwysau ar gyllid cyhoeddus yn parhau i gynyddu, felly hefyd yr angen i ddod o hyd i ffyrdd cynaliadwy i reoli, datblygu ac amddiffyn yr asedau naturiol hyn fel bod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu parhau i elwa ohonynt. Mae'r sector gwirfoddol mewn sefyllfa dda i ddarparu'r wybodaeth, sgiliau ac ymrwymiad sy'n ofynnol i hyrwyddo cynaliadwyedd ein hamgylchedd naturiol, ac mae hyn i'w weld drwy'r niferoedd cynyddol o sefydliadau gwirfoddol sy'n anelu at ehangu ac amddiffyn ein parciau a mannau gwyrdd lleol.

**Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli yn eich parc neu fan gwyrdd lleol, neu'n ystyried sefydlu grŵp newydd, bydd y pecyn cymorth hwn yn eich helpu** i feddwl am yr hyn sydd angen i chi ei wneud. Efallai y byddwch yn canfod mai dim ond ychydig o'r pwyntiau yn y ddogfen hon sy'n berthnasol i'ch grŵp ond mae'n ddefnyddiol eu hystyried i gyd cyn i chi fwrw ati.



## Adran 2: Cefndir

### 2.1 Diffiniad – beth yw parciau a mannau gwyrdd?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn disgrifio sut mae ‘man gwyrdd’ yn dir sy’n cael ei gynnal at ddibenion hamdden a mwynhad cymunedau yn ein pentrefi, trefi a dinasoedd. Gall y mannau gwyrdd hyn gynnwys tir â llystyfiant – parciau, gerddi cymunedol, coedwigoedd, coetiroedd, mannau anffurfiol, rhandiroedd a safleoedd tyfu bwyd yn ogystal ag ardaloedd dŵr, megis yr arfordir, afonydd, camlesi, llynnoedd a phyllau.

### 2.2 Cyd-destun lleol

**Mae gan ranbarth Bae Abertawe**, sy’n cynnwys Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, amgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol sy’n cynnwys ardal o harddwch naturiol eithriadol gyntaf Prydain, arfordir llydan, coedwigoedd eang a pharciau trefol a safleoedd o ddiddordeb hanesyddol trawiadol. Yn ôl y Comisiwn Elusennau roedd 103 o elusennau yn gweithredu yn rhanbarth Bae Abertawe yn 2019 gyda’r prif ddiben o ‘hyrwyddo amddiffyn a gwella’r amgylchedd.’ Mae ehangder y gwaith gwirfoddol a wna’r sefydliadau hyn i gefnogi ac amddiffyn ein parciau a mannau gwyrdd lleol yn helaeth ac yn amrywio o gymuned i gymuned. Dyma rai enghreifftiau gwych o’r grwpiau sy’n gweithredu yn rhanbarth Bae Abertawe:

- **Sefydlwyd Cyfeillion Parc Jersey**, Llansawel, yn dilyn cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd i fynd i’r afael â chyflwr dirywiedig y parc addurniadol lleol. Ers 2016, mae’r grŵp wedi trawsnewid y parc yn ased cymunedol a ddefnyddir yn helaeth gyda digwyddiadau a phrosiectau rheolaidd megis sesiynau addysgol, diwrnodau chwarae, gweithgareddau casglu sbwriel a chwilota pyllau, diwrnodau chwynnu/plannu yn ogystal â gosodiadau celf sy’n arddangos doniau artistig lleol.
- **Mae Cymdeithas Gymunedol y Mwmbwls** yn gweithio mewn partneriaeth â Chyfeillion Parc Underhill yn Abertawe i wella’r parc ac annog defnydd cymunedol. Maent wedi gweithio’n ddiflino a chodi digon o arian yn llwyddiannus ar gyfer hwb cymunedol a fydd yn gwasanaethu’r clwb chwaraeon yn y parc yn ogystal â’r gymuned ehangach yn gyffredinol.
- **Mae Gwirfoddolwyr Amgylchedd Afan** yn trefnu partïon gwaith gwirfoddol rheolaidd ym Mharc Coedwig hardd, Afan. Mae’r gwirfoddolwyr yn cyflawni ystod o dasgau yn cynnwys casglu sbwriel, gwaredu rhywogaethau ymledol, a darparu noddfa ar gyfer pob math o fywyd gwylt
- **Mae Cyfeillion Parc Coed Bach, Pontarddulais**, yn cynnal diwrnodau gwirfoddoli rheolaidd i gadw’r parc yn lân ac atyniadol. Maent wedi ychwanegu llwybr newydd i gynyddu mynediad i gadeiriau olwyn a bygis ac wedi derbyn grant ar gyfer offer chwarae newydd sy’n addas i blant hŷn.



## 2.3 Beth all grwpiau gwirfoddol ei wneud?

Mae grwpiau cymunedol lleol yn gwirfoddoli eu hamser ac egni i ymwneud ag ystod eang o brosiectau gwahanol yn eu parciau a mannau gwyrdd lleol. Gall tasgau gwirfoddoli gynnwys;

- Tasgau ymarferol megis clirio, plannu coed a gwella mynediad.
- Trefnu digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleuster i'r gymuned ehangach.
- Gwella bioamrywiaeth (e.e. creu dolydd blodau gwyllt, gosod gwestai chwilod a blychau adar ac ystlumod).
- Arwain teithiau a sgysiau i hyrwyddo treftadaeth y safle.
- Cynhyrchu pamffledi a deunyddiau addysgol eraill.
- Codi arian ar gyfer gwelliannau i'r safle.
- Cyfrannu at gynllunio a rheoli'r parc/man gwyrdd.

Aelodau'r grŵp eu hunain sydd i benderfynu ar lefel y gweithgarwch y dymunant ymgymryd â hi. Efallai y bydd rhai'n gweithredu ar lefel isel, yn llywio rheolaeth o'r safle yn unig, tra bydd eraill yn fwy gweithgar, yn codi arian, trefnu digwyddiadau a datblygu cyfleusterau newydd. Noder, fodd bynnag, bydd cwmpas y gweithgareddau gwirfoddoli a ganiateir ar y tir dan sylw yn ôl disgrisiwn y tirlfeddiannwr.

“Gan mai'r bobl sy'n byw agosaf at y lle sy'n poeni fwyaf amdano, mae datrysiadau dan arweiniad y gymuned yn cynhyrchu lleoedd o ansawdd gwell sy'n ymateb i anghenion a gofynion lleol.”  
myCommunity (2020)



## 2.4 Pam ddylech wirfoddoli yn eich parc/man gwyrdd lleol?

Cydnabyddir yn eang buddion gwirfoddoli i'r gymuned a'r gwirfoddolwr unigol. Adrodda Defra (2019) ceir tystiolaeth i ddangos bod gwirfoddoli yn eich amgylchedd lleol yn arwain at fuddion ymarferol yn cynnwys mwy o sgiliau a chyflogadwyedd, yn ogystal â buddion personol, yn cynnwys; mwy o hyder, ymdeimlad o berthyn o fewn y gymuned, llesiant corfforol a meddyliol gwell a'r cyfle i ddatblygu ffrindiau a rhwydweithiau cymdeithasol newydd.

Mae grwpiau cymunedol sy'n gwirfoddoli yn ein parciau a mannau gwyrdd yn gymdeithasol iawn, mae gwirfoddolwyr yn mwynhau gweithio yn yr awyr agored gyda phobl o'r un anian i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn eu hamgylchedd lleol.

“Ni ddylai gwirfoddoli fyth deimlo fel gorchwyl, ceisiwch wneud tasgau gwirfoddoli yn hwyliog a difyr. Mae'n bwysig cael seibiannau lle gallwch sgwrsio a chael diod neu fwyd gyda'ch gilydd.”

Gwirfoddolwyr Amgylchedd Afan



# Adran 3: A ydych yn ystyried sefydlu grŵp newydd?

Os oes gennych syniad am brosiect amgylcheddol yn eich cymuned, mae'n ddefnyddiol ystyried nifer o gwestiynau cyn sefydlu.

## 3.1 Sut Allwn Ni Gael Cymorth a Chyngor?

Mae bob amser yn syniad da cael cymorth a chyngor – ac yn ffodus iawn mae digonedd ar gael drwy eich Cyngor Gwirfoddol Cymunedol Lleol (CVC). Mae Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe (SCVS) a Chyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot (NPTCVS) wedi ymrwymo i gefnogi, hyrwyddo a datblygu sefydliadau gwirfoddol, gwirfoddolwyr a chymunedau ar draws rhanbarth Bae Abertawe.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r cymorth ar gael gan eich CVC lleol, cysylltwch â'r canlynol:

- **Abertawe (SCVS)**  
**[www.scvs.org.uk](http://www.scvs.org.uk)**
- **Castell-nedd Port Talbot (NPTCVS)**  
**[www.nptcvs.wales](http://www.nptcvs.wales)**



### 3.2 A oes gennych ganiatâd y tîrfeddiannwr?

Mae'n hanfodol bod gennych gymeradwyaeth a'r holl gysyniadau priodol a chytundebau swyddogol ar waith gan y tîrfeddiannwr cyn dechrau unrhyw waith yn eich parc neu fan gwyrdd lleol. Gall y corff sy'n gyfrifol am reoli a chynnal a chadw'r tir dan sylw amrywio a chynnwys, o bosib;

- Yr Awdurdod Lleol – a ydych chi wedi siarad â'ch Cynghorydd Sir Lleol? Gallant eich helpu i gysylltu â'r adran berthnasol o fewn y cyngor yn y lle cyntaf.
- Eich Cyngor Tref neu Gymuned Lleol – unwaith eto, efallai yr hoffech siarad â'ch Cynghorydd Lleol, fel arall gallwch gysylltu â'r Clerc i'r Cyngor.
- Cyfoeth Naturiol Cymru – fe'ch anogir i gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod eich cynnig prosiect, bydd eu tîm yn gallu gwneud yn siŵr bod y prosiect yn addas a gofyn i chi gwblhau ffurflen gais.
- Arall – efallai yn wir fod eich parc neu fan gwyrdd lleol dan berchnogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cymdeithas Dai, tîm rheoli ystâd neu berchnogaeth breifat hyd yn oed.

“Mae'n bwysig cofio nad cyfrifoldeb y gwirfoddolwyr yn unig yw gwneud pethau a bod gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol ar gyfer cyflawni pethau gwyh.”

Cyfeillion Parc Jersey

Efallai y bydd y tîrfeddiannwr yn croesawu eich syniadau ac yn ymrwymo i weithio mewn partneriaeth, gan werthfawrogi'r ymdrechion a'r cyfraniad y gall gwirfoddolwyr ei wneud. Fodd bynnag, mae'n bosib bod y man gwyrdd dan sylw wedi'i glustnodi ar gyfer datblygu neu nad yw'n cael ei ystyried yn addas ar gyfer y prosiect sydd gennych mewn golwg.

Pwy bynnag yw'r tîrfeddiannwr, byddant eisiau sicrwydd eich bod yn grŵp wedi hen sefydlu gyda'r holl fesurau iechyd a diogelwch perthnasol yn ogystal ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar waith. Byddwch yn dod o hyd i ragor o gyngor a gwybodaeth ynglŷn â'r pynciau hyn yn y pecyn cymorth. Peidiwch ag anghofio y gall eich CVC Lleol eich cynghori ar y broses hon.





### 3.3 A oes grŵp eisoes yn bodoli yn yr ardal yn gwneud yr hyn y dymunwch ei wneud?

Mae'n bwysig darganfod pa sefydliadau a phrosiectau sydd eisoes ar gael yn lleol. Cysylltwch â'ch CVC lleol i drafod eich syniad prosiect. Byddant yn gallu eich cysylltu â grwpiau sefydledig a all fod wedi meddwl am syniadau tebyg eisoes ac yn gweithio tuag at eu cyflawni. Lle mae grŵp sy'n gweithio tuag at nodau tebyg, gall fod yn well ymuno â nhw yn hytrach na sefydlu grŵp newydd.

### 3.4 A oes cefnogaeth gymunedol ehangach?

Mae cydlynu gweithredu amgylcheddol cymunedol yn cymryd llawer o waith ac mae'n haws os oes gan bobl leol ymrwymiad sylweddol i wirfoddoli. Mae nifer o grwpiau yn dechrau yn fach, gan ei bod yn anodd denu pobl i gymryd rhan, weithiau. Fodd bynnag, mae'n dal yn bwysig siarad â phobl leol i bennu a oes angen ar gyfer eich prosiect ac a oes diddordeb lleol a chefnogaeth i'ch syniadau. Gellir gwneud hyn yn ffurfiol drwy gyfarfodydd cyhoeddus neu arolygon ar-lein neu'n anffurfiol drwy siarad â phobl yn eich cymdogaeth.

‘Y prif gyngor fyddwn i'n ei roi i unrhyw grŵp newydd yw ymgynghori, ymgynghori, ymgynghori â'r gymuned leol – fel arall, mae unrhyw fentrau clodwiw yn debygol o fethu cyn cychwyn.’

Gardd Gymunedol Clydach



## Adran 4: Sefydlu grŵp cymunedol newydd

Os ydych wedi penderfynu mai sefydlu grŵp newydd yw'r ffordd orau ymlaen, yna mae nifer o ffactorau i'w hystyried.

### 4.1 Llywodraethu

Bydd angen i'ch grŵp newydd sefydlu 'set o reolau' neu ddogfen Lywodraethu sy'n amlinellu; beth yw enw eich grŵp, beth yw ei nodau, sut fydd eich grŵp yn cael ei redeg a phwy sy'n gyfrifol am ei redeg.

Mae'r rhan fwyaf o grwpiau bach a sefydliadau gwirfoddol yn sefydliadau anghorfforedig gyda dogfen Lywodraethu a elwir yn 'cyfansoddiad'. Ar ôl i'ch grŵp gytuno a llofnodi eich cyfansoddiad, mae'n ddogfen gyfreithiol. Bydd y ddogfen hon yn ofynnol i agor cyfrif banc i'ch grŵp ac ymgeisio am grantiau a chyllid. Mae cyfansoddiad enghreifftiol ar gyfer cymdeithasau anghorfforedig ar gael gan eich CVC lleol.

Wrth i'ch grŵp ddatblygu, efallai y byddwch yn penderfynu diweddarau eich dull llywodraethu a mabwysiadu strwythur cyfreithiol arall. Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych yn bwriadu prydlesu tir neu adeiladau, neu ymuno â threfniadau cytundebol eraill. Mae strwythurau elusennol gwahanol y gallwch ddewis o'u plith a bydd angen i'ch aelodau pwyllgor a grŵp gytuno ar ba un sy'n addas i chi. Peidiwch ag anghofio y gall eich CVC lleol eich cynghori ar ddewis y strwythur mwyaf addas. Ceir rhagor o wybodaeth ar-lein hefyd:



Am ragor o wybodaeth:

<https://thirdsectorsupport.wales/resources/charitable-status/>

### 4.2 Rolau a Chyfrifoldebau

Yn unol â'ch dogfen Lywodraethu, bydd eich pwyllgor yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod eich grŵp yn rhedeg yn rhwydd o ddydd i ddydd. Dylai'r pwyllgor weithredu fel tîm, gan dynnu ar sgiliau a doniau pob aelod, a gweithio tuag at nodau cyffredin i sicrhau llwyddiant. Dylai aelodau pwyllgor ddangos ymrwymiad i'r grŵp, cael digon o amser i'w roi i'w rôl a dealltwriaeth o gyfrifoldebau'r Pwyllgor a'u rôl oddi mewn iddo.

Yn aml, bydd gan bwyllgorau nifer o bobl etholedig yn eistedd arnynt megis cadeirydd, ysgrifennydd a thrysorydd. Efallai y byddwch hefyd yn penderfynu cael rolau ychwanegol megis swyddog marchnata, cynghorydd iechyd a diogelwch neu reolwr gwirfoddoli. Mae cael rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir yn ffordd dda o rannu'r llwyth gwaith a gwneud y broses benderfynu yn haws.

Bydd angen i chi gytuno fel grŵp pa mor aml fydd y pwyllgor yn cyfarfod i drafod sut mae'r grŵp yn rhedeg a lle gellir gwneud gwelliannau. Bydd gofyn i chi gynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fel y gellir adolygu aelodaeth o'r grŵp os oes angen.



## 4.3 Rheoli Arian a Chyllid Parhaus

Mae costau anochel yn gysylltiedig â sefydlu a rhedeg grŵp, gall y rhain gynnwys llogi ystafell ar gyfer eich cyfarfodydd neu argraffu pamffledi at ddibenion cyhoeddusrwydd hyd yn oed. Mae'n bwysig meddwl am sut y byddwch yn codi arian i gefnogi eich gweithgareddau a sut y bydd eich arian yn cael ei reoli. Cyn gynted ag y bydd gan eich grŵp arian, bydd angen i chi adnabod un person a fydd yn gyfrifol am gadw golwg arno. Dylai'r Trysorydd fod yn gyfrifol am gadw cyfrifon cywir, cofnodi faint o arian sydd wedi dod i mewn i'r grŵp, o ble y mae wedi dod, ar gyfer beth y mae a sut y mae wedi cael ei wario. Mae'n bwysig bod y pwyllgor rheoli yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar sefyllfa ariannol y grŵp gan fod holl aelodau'r pwyllgor yn gyfrifol am arian eich grŵp.

Cael cyfrif banc yw'r ffordd orau o wneud yn siŵr bod arian eich grŵp yn cael ei gadw yn ddiogel ac mae'r rhan fwyaf o fanciau'r stryd fawr yn cynnig cyfrifon arbennig ar gyfer grwpiau cymunedol. Bydd angen i chi ddarparu copi o'ch dogfen lywodraethu i agor eich cyfrif a chael o leiaf dau aelod o'r grŵp nad ydynt yn perthyn i'w gilydd sy'n fodlon gweithredu fel llofnodwyr. *\*Fel rheol, mae cyllidwyr yn gofyn i chi gael cyfrif banc lle mae'n rhaid i bob sic gael ei llofnodi gan ddau o bobl.*

Wrth i'ch grŵp ddatblygu, efallai yr hoffech ystyried ymgeisio am grantiau a chyllid allanol. Gall eich CVC lleol eich helpu i adnabod cyfleoedd cyllid. Gallwch hefyd ddefnyddio Cyllido Cymru sy'n llwyfan chwilio am gyllid a grëwyd gan Cefnogi Trydydd Sector Cymru. Mae'n caniatáu i elusennau, grwpiau cymunedol neu fentrau cymdeithasol yng Nghymru ddod o hyd i gyllid yn defnyddio peiriant chwilio ar-lein am ddim. Gallwch chwilio am gannoedd o gyfleoedd cyllid benthyciadau a grantiau gan ffynonellau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, o grantiau bach i brosiectau cyfalaf mawr.



Am ragor o wybodaeth:  
<https://funding.cymru>



## 4.4 Polisiâu a Gweithdrefnau

Bydd set briodol o bolisiâu a gweithdrefnau clir a chryno yn helpu i arwain gweithrediad o ddydd i ddydd eich grŵp. Datganiadau syml, clir yw polisiâu ynglŷn â sut ydych yn bwriadu cynnal eich busnes ac ymgymryd â'ch gweithgareddau a byddant yn amlinellu egwyddorion arweiniol i helpu gyda gwneud penderfyniadau. Mae gweithdrefnau yn disgrifio sut y bydd pob polisi yn cael ei roi ar waith gan eich grŵp, gallant fod yn ddogfen ar wahân neu'n adran o'r polisi cyfatebol.

Dyma rai polisiâu awgrymedig y dylai eich grŵp ystyried eu mabwysiadu. Dim ond man cychwyn yw hyn ac mae'n bwysig adnabod y mwyaf perthnasol i'ch sefyllfa.

- **Iechyd a Diogelwch** – mae'n amlinellu eich ymrwymiad i reoli iechyd a diogelwch yn effeithiol, adnabod pwy sy'n gyfrifol am weithredoedd penodol a darparu manylion ynglŷn â beth ydych yn mynd i'w wneud yn ymarferol i gynnal amgylchedd gwirfoddoli diogel.
- **Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** – cytundeb ysgrifenedig ar gyfer eich grŵp ynglŷn â sut y byddwch yn osgoi gwahaniaethu yn erbyn pobl, a sut y byddwch yn creu awyrgylch diogel a chynhwysol i'ch gwirfoddolwyr a'r rheiny sy'n elwa o'ch gweithgareddau.
- **Amgylcheddol** – bydd yn amlinellu eich ymrwymiad i fabwysiadu arferion gweithio a fydd yn cynorthwyo tuag at gynaliadwyedd a gwelliannau amgylcheddol parhaus.
- **Rheoli Gwirfoddolwyr** – bydd yn helpu i ddiffinio rôl gwirfoddolwyr yn eich sefydliad, a sut y gallant ddisgwyl cael eu trin. Gall helpu i: ddangos ymrwymiad eich grŵp i'w raglen wirfoddoli a'i wirfoddolwyr unigol.
- **Diogelu** – dylai diogelu pobl rhag niwed fod yn flaenoriaeth lywodraethu ar gyfer yr holl grwpiau ac elusennau gwirfoddol. Rhaid i chi ddangos eich bod wedi cymryd pob cam rhesymol i amddiffyn y rheiny sy'n dod i gysylltiad â'ch grŵp.
- **Iaith Gymraeg** – er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg dylech amlinellu sut y byddwch yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd cyn belled ag y mae hynny'n rhesymol ac ymarferol.

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi polisiâu a gweithdrefnau ar waith sy'n briodol i'ch grŵp. Os oes angen cymorth a chyngor arnoch gyda datblygu polisiâu a gweithdrefnau, yna cysylltwch â'ch CVC lleol.



## 4.5 Iechyd a Diogelwch

Pan fyddwch yn dechrau meddwl am iechyd a diogelwch, mae'n hawdd iawn cael eich llethu a phoeni am yr hyn a allai fynd o'i le. Mae iechyd a diogelwch mewn grŵp cymunedol yn golygu'r holl ffyrdd rydych chi a'ch grŵp yn meddwl am lesiant gwirfoddolwyr, aelodau, cyfranogwyr, a'r cyhoedd. Mae'n ymwneud â chydweithio i wneud yn siŵr eich bod wedi gwneud popeth y gallwch i atal damweiniau y gellir eu hosgoi ac amddiffyn pobl rhag brifo.

Dylid asesu risg gweithgareddau eich grŵp ymlaen llaw. Diffinnir asesiad risg fel proses systemig o adnabod peryglon a gwerthuso unrhyw risgiau cysylltiedig, yna gweithredu mesurau rheoli rhesymol i'w dileu neu eu lleihau.

Dylai asesiadau risg ddilyn y broses ganlynol:

- Adnabod y risg bosib (h.y. llithro a baglu, gweithio'n annibynnol, codi a chario).
- Adnabod pwy all fod mewn perygl (h.y. gwirfoddolwyr; y cyhoedd neu staff).
- Adnabod mesurau y byddwch yn eu rhoi ar waith i leihau pob risg (h.y. gwneud yn siŵr bod archwiliad o'r ardal ar gyfer pob perygl llithro a baglu posib ar ddechrau pob sesiwn, darparu hyfforddiant codi a chario i wirfoddolwyr).
- Adnabod pwy fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y mesurau hyn cael eu rhoi ar waith ac erbyn pryd.

Peidio ag anghofio bod asesiadau risg yn broses barhaus ac y dylid eu hadolygu yn rheolaidd yn ystod oes eich prosiect.

## 4.6 Yswiriant

Fel grŵp rydych yn gyfrifol am holl weithredoedd eich aelodau wrth gynnal gweithgareddau ar ran eich grŵp. Mae'n hanfodol bod gennych yswiriant atebolrwydd cyhoeddus i leihau unrhyw hawliadau gan aelodau o'r cyhoedd (yn cynnwys gwirfoddolwyr) am anaf, colled neu ddifrod a achoswyd o ganlyniad i esgeulustod. Argymhellir yswiriant o leiaf £5 miliwn fel rheol. Fodd bynnag, mae'n werth gwirio gyda'r tîrffeddiannwr i weld beth sydd ei angen arnynt i sicrhau bod eich gwirfoddolwyr a'r cyhoedd yn cael eu diogelu wrth gynnal digwyddiadau neu weithgareddau eraill yn eich parc neu fan gwyrdd lleol. Yn ogystal, efallai yr hoffech ystyried cael yswiriant ar gyfer adnoddau ac offer eich grŵp a'u hyswirio yn erbyn tân a lladrata tra maent yn cael eu storio.

Peidiwch ag anghofio bod gennych gyfrifoldeb cymdeithasol dros wirfoddolwyr eich grŵp a bod angen i chi sicrhau bod gennych yswiriant digonol ar gyfer eich gwirfoddolwyr – ar gyfer eu hystod oedran ac ar gyfer y rolau y byddant yn eu cyflawni. Gwiriwch gyda'ch cwmni yswiriant yn erbyn beth mae eich gwirfoddolwyr wedi'u gwarchod, a sicrhewch eich bod yn cyfathrebu hyn i'ch aelodau grŵp.

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn opsiwn poblogaidd ar gyfer yswiriant i grwpiau cymunedol.



Edrychwch ar eu gwefan am ragor o wybodaeth: <https://www.keepwalestidy.cymru/groupinsurance>



# Adran 5: Pethau eraill i'w hystyried

## 5.1 Bioamrywiaeth

A ydych wedi ystyried sut y bydd eich gweithgareddau prosiect yn effeithio ar fioamrywiaeth eich parc neu fan gwyrdd lleol? Mae bioamrywiaeth yn cwmpasu'r amrywiaeth o fywyd ar y Ddaear – planhigion, anifeiliaid, ffyngau a micro-organebau hyd yn oed fel bacteria sy'n ffurfio ein byd naturiol. Mae pob un o'r rhywogaethau ac organebau hyn yn cydweithio mewn ecosystemau, fel gwe fanwl, i gynnal cydbwysedd a chefnogi bywyd. Mae bioamrywiaeth yn cefnogi popeth mewn natur sydd ei angen arnom i oroesi. Er enghraifft, mae'n rhoi bwyd i ni, gall helpu i lanhau ein haer a dŵr, ac oeri ein trefi a dinasoedd. Mae hyn yn helpu i leihau'r risg o brinder dŵr, llifogydd a gorboethi, ac wrth wneud hynny yn darparu elfen o wytnwch yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

Yn anffodus, mae bioamrywiaeth yn parhau i ostwng yn frawychus o gyflym. Mae gan eich grŵp y potensial i wrthdroi'r duedd hon, drwy amddiffyn a gwella'r fioamrywiaeth yn eich cymuned. Am ragor o gyngor a gwybodaeth ynglŷn â bioamrywiaeth yn eich ardal, cysylltwch â'ch Partneriaeth Natur Leol. Maent wrth law i gynnig cyngor ymarferol yn ogystal â chymorth o ran cynllunio strategol i sicrhau bod eich gwaith gwirfoddol yn cyfrannu at Gymru iach, wydn sy'n gyfoeth o natur.



I gysylltu â'ch Cydlynnydd Partneriaeth Natur Leol ewch i:  
<https://www.biodiversitywales.org.uk/>

## 5.2 Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd asedau cymunedol ac mae ganddi ymrwymiad penodol i 'weithio gyda chymunedau i helpu i gynnal cyfleusterau lleol sy'n dod â phobl ynghyd, yn cynnwys manau gwyrdd, gan helpu cymunedau i gymryd perchnogaeth o asedau yn eu hardal leol pan fydd hyn yr opsiwn gorau.' Mae'r gyfraith yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol a rhai cyrff cyhoeddus eraill drosglwyddo tir – lle mae'n hyrwyddo llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae trosglwyddo asedau yn golygu y gall y gymuned fod yn berchen ar, a rheoli cyfleusterau, a fyddai fel arall ddim yn cael eu defnyddio'n helaeth, yn cael eu hesgeuluso neu eu cau hyd yn oed.

Mae awdurdodau lleol yn ystyried dulliau eraill o reoli a chyllido eu parciau a manau gwyrdd. Gall cynnwys cymunedau a grwpiau cymunedol amrywio o drosglwyddo perchnogaeth yn llawn, i reolaeth ar y cyd gyda'r awdurdod lleol gan gadw ychydig o gyfrifoldebau. Beth bynnag fo'r cytundeb, gall llwyddiant trosglwyddo i grŵp cymunedol ddibynnu ar gynllun busnes manwl, mae gan ddiffyg profiad neu ymchwil a pharatoi annigonol y potensial i droi ased yn rhwymedigaeth.

Os yw eich grŵp yn ystyried cymryd cyfrifoldeb cyfreithiol dros reoli eich parc neu fan gwyrdd lleol, mae'n hanfodol eich bod yn ceisio cyngor. Cysylltwch â'ch CVC lleol yn y lle cyntaf, yn ogystal ag edrych ar y canllawiau gan Lywodraeth Cymru:



<https://gov.wales/community-asset-transfer-cat-guidance-applicants>



### 5.3 Cydnabod eich gwaith

Mae gwobr anrhydeddus y Faner Werdd yn feincnod ar gyfer parciau a mannau gwyrdd yn y DU a thu hwnt. Yng Nghymru, caiff y cynllun ei redeg gan Cadwch Gymru'n Daclus gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cydnabod y gall amgylchedd o safon dda gael effaith fawr ar iechyd, llesiant ac economi ein cymunedau lleol.

Gall amrywiaeth eang o fannau gwyrdd ymgeisio ar gyfer Gwobr y Faner Werdd, o barciau trefol bach i barciau gwledig mawr, campysau prifysgolion, stadau tai a mynwentydd hyd yn oed. Mae Gwobr Gymunedol y Faner Werdd wedi cael ei dylunio'n arbennig i gydnabod llwyddiannau grwpiau gwirfoddol sy'n rheoli mannau gwyrdd lleol a all gynnwys rhandiroedd, coetiroedd, gwarchodfeydd natur lleol a gerddi cymunedol.



Am ragor o wybodaeth ynglŷn â Gwobrau'r Faner Werdd a manylion ynglŷn â sut i ymgeisio ewch i:  
**<https://www.keepwalestidy.cymru/Pages/Category/greenflag>**



## Adran 6: Casgliad

Lle bynnag ydych yn rhanbarth Bae Abertawe, mae parc, gardd gymunedol, coetir neu fan gwyrdd arall gerllaw sydd â'r potensial i ddod â'r gymuned ynghyd a chreu ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn. Mae lleoedd sy'n cael eu dylunio, rheoli a defnyddio'n dda yn chwarae rôl bwysig yn cadw ein cymunedau yn hapus ac iach.

P'un a yw'r pecyn cymorth hwn wedi eich annog i ymuno â grŵp sefydledig neu eich ysbrydoli i ddechrau grŵp newydd yn eich ardal, rydym yn dymuno pob lwc i chi gyda'ch gwirfoddoli yn y dyfodol. Bydd eich ymdrechion ac ymrwymiad i wella ac amddiffyn eich parc neu fan gwyrdd lleol yn diogelu'r asedau cymunedol hyn i genedlaethau'r dyfodol eu mwynhau, heb os.

### Dolenni Defnyddiol:

Cyngor Abertawe

<https://www.abertawe.gov.uk/ParciauAiY>

Cyngor Castell-nedd Port Talbot

<https://www.npt.gov.uk/1447>

Cyfoeth Naturiol Cymru

<https://naturalresources.wales/?lang=cy>

#### Cynghorau Tref a Chymuned

Abertawe

<http://democracy.swansea.gov.uk/mgParishCouncilDetails.aspx?bcr=1&LLL=1>

Castell-nedd Port Talbot

<https://democracy.npt.gov.uk/mgParishCouncilDetails.aspx?ls=12&SLS=5&bcr=1&LLL=1>

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

<https://www.nationaltrust.org.uk/>

Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru

<https://www.biodiversitywales.org.uk/Cartref>

Partneriaethau Natur Lleol Cymru

<https://lnp.cymru/Hafan>

Cyswllt Amgylchedd Cymru

<https://waleslink.org/cy/home-cymraeg/>

Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru

<https://www.wtwales.org/cy>

Coed Cadw

<https://www.woodlandtrust.org.uk/>

Cadwch Gymru'n Daclus

<https://www.keepwalestidy.cymru/cy>

Plantlife Cymru

<https://www.plantlife.org.uk/wales>

Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd

<https://canalrivertrust.org.uk/cymru>

Ffederasiwn Cenedlaethol

Parciau a Mannau Gwyrdd

<https://natfedparks.org.uk/>

Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

<https://www.farmgarden.org.uk/cy>

Cymdeithas Genedlaethol Rhandiroedd

<https://www.nsalg.org.uk/>

Room To Grow

<http://roomtogrow.wales/>

The Orchard Project

<https://www.theorchardproject.org.uk/>

Mannau Gwyrdd Cymunedol Abertawe

<http://swanseacommunitygreenspaces.weebly.com/>

Rhwydwaith Tyfu Cymunedol Abertawe

<https://swanseacommunitygrowing.weebly.com/>

Fforwm Cyfeillion Parciau Abertawe

**(Grŵp Facebook)**

<https://www.facebook.com/groups/swanseparksforum>



Prosiect amlasiantaethol yw  
**Cymorth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg**  
sy'n creu adnoddau a rennir i ddatblygu gwybodaeth gwirfoddolwyr  
a sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr a'r gwaith o'u rheoli  
a chydlynu ar draws ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.  
Ariennir gan Gronfa Adfer Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru.

**Partneriaid y prosiect yw:**

Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol  
Castell-nedd Port Talbot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe,  
Cyngor Abertawe, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe  
a Phartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

**Am ragor o wybodaeth, ewch i:**  
**[www.westglamorgan.org.uk/wgvs](http://www.westglamorgan.org.uk/wgvs)**